**TESTUN TRAFOD**

Torrwch ar hyd y llinell doredig

Plygwch ar hyd y llinell doredig fân

Lifeboats

SWPER PYSGOD YR RNLI




Yr RNLI yw'r elusen sy'n achub bywydau ar y môr

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub, elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (209603), yr Alban (SC037736), Gweriniaeth Iwerddon (CHY 2678 a 20003326), Beilïaeth Jersey (14), Ynys Manaw (1308 a 006329F), Beilïaeth Guernsey ac Alderney, o West Quay Road, Poole, Dorset, BH15 1HZ

Registered with/Cofrestrwyd gyda'r FUNDRAISING REGULATOR RHEOLEIDDIWR CODI ARIAN

SWPER PYSGOD YR RNLI

Mae'r arian rydych yn ei roi bob blwyddyn yn ein helpu i gyflawni canlyniadau rhyfeddol. Byddwch chi hefyd yn synnu at rai o'r mythau sy'n bodoli o hyd ynglŷn â'r RNLI.

## CHWALU MYTHAU

MYTH

### 'MAE'R RNLI YN RHAN O WYLWYR Y GLANNAU NEU'R LLYNGES'

**FFAITH** Elusen annibynnol ydym ni, sy'n cael ei chynnal gan wirfoddolwyr dewr a rhoddion hael gan y cyhoedd. Mae ein gwasanaeth achub 24 awr yn cwmpasu dros 19,000 o filltiroedd o arfordir o amgylch y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

MYTH

### 'DIM OND NOFWYR GWAN SY'N BODDI'

**FFAITH** Gall sioc dŵr oer achosi i bobl sy'n nofwyr cryf fel arfer foddi. Mae'n cynyddu cyfradd curiad y galon a phwysedd gwaed ac felly'n gallu achosi trawiad ar y galon, hyd yn oed mewn pobl gymharol ifanc ac iach.

MYTH


### 'MAE'R RNLI YN ACHUB BYWYDAU AR Y MÔR YN UNIG'

**FFAITH** Mae ein criwiau a'n hachubwyr bywyd wedi achub mwy na 143,000 o fywydau ers 1824. Ond rydym yn fwy na gwasanaeth achub yn unig – mae eich cefnogaeth yn ein helpu i rannu gwybodaeth a sgiliau diogelwch gyda miliynau o bobl sy'n defnyddio'r dŵr bob blwyddyn.

MYTH

### 'MAE'R RNLI YN RECRIWTIO CRIW PROFIADOL YN UNIG'

**FFAITH** Dim o gwbl! Nid oes gan 9 o bob 10 aelod o griw unrhyw brofiad morwrol pan fyddant yn ymuno. Rydym yn eu hyfforddi yn ein cyfleuster a adeiladwyd i'r diben yn Poole, Dorset.



**DIOLCH AM EIN CEFNOGI. I GAEL GWYBOD MWY AM WAITH ACHUB BYWYDAU'R RNLI, EWCH I RNLI.ORG/ABOUT-US**

Lifeboats